

					
MEWNBYNNAU	Arweinyddiaeth a Diwylliant	Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth	Cyllid ac Adnoddau	Y Gweithlu	Cynnwys y Gymuned
CAMAU GWEITHREDU	<p>Penodi uwch arweinwyr mewn cynllunio, cyllid a gweithrediadau a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo tegwch iechyd.</p> <p>Uwch Arweinwyr Gofal Sylfaenol i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Thegwch Iechyd wrth gynllunio a chyflenwi.</p> <p>Cydweithio â Chlystyrau a Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau i wreiddio tegwch yn y cylch cynllunio blynyddol.</p> <p>Cyflwyno Adolygiadau Tegwch Iechyd chwarterol i asesu cynnydd ar draws yr holl ganlyniadau allweddol a'r targedau i'w cyflawni.</p>	<p>Cymhwyso dulliau Iechyd y Boblogaeth i nodi ac ymateb i anghenion Gofal Sylfaenol sydd heb eu diwallu ar draws grwpiau poblogaeth.</p> <p>Datblygu systemau a fydd yn integreiddio profiad gwirioneddol cleifion yn y gwaith o gasglu a dadansoddi data.</p> <p>Ymgorffori profiad gwirioneddol cleifion yn y data ar ddefnyddio'r gwasanaethau i ddylanwadu ar y gwaith cynllunio.</p> <p>Blaenoriaethu ymchwil, gwerthuso ac arloesi mewn meysydd sydd ag angen mawr (e.e. practisiau Deep End).</p> <p>Sicrhau cytundebau rhannu data lleol gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector, i hwyluso'r gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau ar y cyd ac ar sail gwybodaeth.</p>	<p>Cymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Chydraddoldeb yn systematig ym mhob penderfyniad ariannu.</p> <p>Dyrannu adnoddau yn unol ag anghenion iechyd y boblogaeth, yn cynnwys poblogaethau sydd â nifer o anghenion sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.</p> <p>Cyllid uniongyrchol i leihau anghydraddoldebau iechyd fel amcan craidd y sefydliad.</p>	<p>Cefnogi hyfforddiant DPP ar anghydraddoldebau iechyd ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol.</p> <p>Ymgorffori hyfforddiant anghydraddoldebau iechyd ym mhob rhaglen ymsefydlu a sicrhau ei fod ar gael i staff presennol ar bob lefel.</p> <p>Ehangu ac amrywio rhaglenni prentisiaeth ar draws Byrddau Iechyd, a rhoi blaenoriaeth i recriwtio o blith cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.</p> <p>Defnyddio prentisiaethau i gryfhau piblinellau gweithluoedd lleol a chefnogi arferion recriwtio cynhwysol.</p> <p>Sefydlu systemau i werthuso strategaethau cynllunio, recriwtio a chadw'r gweithlu yn barhaus er mwyn gwella.</p> <p>Gweithredu mentrau strwythuredig fel lleoliadau ar sail gylchdroadol, mentora, a chefnogaeth gan gymheiriaid i ddenu a chadw staff mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.</p> <p>Nodi, cefnogi a graddio modelau partneriaeth gweithluoedd llwyddiannus y sector gwirfoddol (e.e. Helpforce Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru).</p>	<p>Gweithio gyda phartneriaid i wreiddio allgymorth dyfal a modelau integredig o ddarparu gofal mewn ardaloedd ag anghenion mawr.</p> <p>Nodi a defnyddio lleoliadau amgen, cymunedol ar gyfer darparu gofal mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol a'r sector gwirfoddol</p> <p>Sicrhau cyfathrebu cynhwysol a hygyrch drwy wreiddio tegwch a hygyrchedd yn yr holl ddeunyddiau hybu iechyd a gwybodaeth i'r cyhoedd.</p> <p>Normaleiddio cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a phrofiad bywyd yn rheolaidd fel rhan o'r arfer safonol.</p>